**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2003 Rhif 817 (Cy.102)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Gorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gofal Iechyd Powys (Diddymu) 2003

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu ar gyfer diddymu ar 1 Ebrill 2003 Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gofal Iechyd Powys a sefydlwyd ar 16 Tachwedd 1992.

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2003 No. 817 (W.102)

# NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

## The Powys Health Care National Health Service Trust (Dissolution) Order 2003

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

This Order provides for the dissolution on 1st April 2003 of the Powys Health Care National Health Service Trust established on 16 November 1992.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2003 Rhif 817 (Cy.102)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Gorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gofal Iechyd Powys (Diddymu) 2003

| | |
|---|---|
| *Wedi'i wneud* | *19 Mawrth 2003* |
| *Yn dod i rym* | *1 Ebrill 2003* |

Drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 126(3) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977(**a**) ac adran 5(1), a pharagraff 29(1) yn Atodlen 2 i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990(**b**), ac a freiniwyd bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**c**), mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac yntau'n ei hystyried hi'n briodol er budd y gwasanaeth iechyd i wneud y Gorchymyn hwn(**ch**), ac ar ôl cyfnod ymgynghori a ragnodwyd o dan baragraff 29(3) o Atodlen 2 i'r Ddeddf hon(**d**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

**Teitl a chychwyn**

**1**.-(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gofal Iechyd Powys (Diddymu) 2003.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ebrill 2003.

(a) 1977 p.49; diwygiwyd adran 126(3) gan adran 65(2) o Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990 (p.19) ("Deddf 1990" ) a chan adran 2(1) o Ddeddf Awdurdodau Iechyd 1995 (p.17) ("Deddf 1995 ") a pharagraff 57 yn Atodlen 1 iddi.

(b) 1990 p.19; diwygiwyd adran 5(1) gan adran 65(2), adran 13(1)(a) a (10) o Ddeddf Iechyd 1999 (p.8) ac Atodlen 5 iddi, ac adran 2(1) o Ddeddf 1995 a pharagraff 69(b) yn Atodlen 1 iddi.

(c) Trosglwyddwyd Swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, O.S. 1999/672.

(ch) *Gweler* paragraff 29(2)(b) yn Atodlen 2 i Ddeddf 1990.

(d) 1990 (p.19).

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2003 No. 817 (W.102)

# NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

## The Powys Health Care National Health Service Trust (Dissolution) Order 2003

| | |
|---|---|
| *Made* | *19th March 2003* |
| *Coming into force* | *1st April 2003* |

In exercise of the powers conferred by section 126(3) of the National Health Service Act 1977(**a**) and section 5(1), and paragraph 29(1) of Schedule 2 to the National Health Service and Community Care Act 1990(**b**) and now vested in the National Assembly for Wales(**c**), the National Assembly for Wales considering it appropriate in the interests of the health service to make this Order(**d**), and after completion of the consultation period prescribed under paragraph 29(3) of Schedule 2 to the latter Act(**e**), hereby makes the following Order:

**Title and commencement**

**1**.-(1) This Order may be cited as the Powys Health Care National Health Service Trust (Dissolution) Order 2003.

(2) This Order shall come into force on 1st April 2003.

(a) 1977 c.49; section 126(3) was amended by section 65(2) of the National Health Service and Community Care Act 1990 (c.19) ("the 1990 Act") and by section 2(1) of, and paragraph 57 of Schedule 1 to, the Health Authorities Act 1995 (c.17) ("the 1995 Act").

(b) 1990 c.19; section 5(1) was amended by section 65(2), section 13(1)(a) and (10) of, and Schedule 5 to, the Health Act 1999 (c.8) and section 2(1) of and paragraph 69(b) of Schedule 1 to, the 1995 Act.

(c) Functions of the Secretary of State, so far as exercisable in relation to Wales, transferred to the National Assembly for Wales, by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999, S.I. 1999/672.

(d) *See* paragraph 29(2)(b) of Schedule 2 to the 1990 Act.

(e) 1990 (c.19).

**Diddymu Ymddiriedolaeth GIG**

**2.** Diddymir drwy hyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gofal Iechyd Powys a sefydlwyd gan Orchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gofal Iechyd Powys (Sefydlu) 1992(**a**), ac yn unol â hynny dirymir drwy hyn y Gorchymyn hwnnw.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**b**)

19 Mawrth 2003

**Dissolution of NHS Trust**

**2.** The Powys Health Care National Health Service Trust established by the Powys Health Care National Health Service Trust (Establishment) Order 1992(**a**) is hereby dissolved, and accordingly that Order is hereby revoked.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**b**)

19th March 2003

*D.Elis-Thomas*

Llywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

The Presiding Officer of the National Assembly for Wales.

(a) O.S. 1992/2741.

(b) 1998 p.38.

(a) S.I. 1992/2741.

(b) 1998 c.38.

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

## 2003 Rhif 817 (Cy.102)

## 2003 No. 817 (W.102)

## Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

# Gorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gofal Iechyd Powys (Diddymu) 2003

# The Powys Health Care National Health Service Trust (Dissolution) Order 2003

©㉆ Hawlfraint y Goron 2003

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2003

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo,
Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090693-4

9 780110 906935

**£1.75**

W27/03/03 ON